


**CYFLWYNIAD I BENARTH**

Diolch am gofrestru ar ein digwyddiad hela ffosiliau.

Penarth yw un o'r lleoliadau mwyaf poblogaidd yn y De i gasglu ffosiliau. Mae'r creigiau yma'n llawn ffosiliau o gyfnodau'r Triasig Uchaf a'r Jwrasig Isaf.

Os ydych chi wedi ymweld â safleoedd megis Pwynt Larnog i'r de, neu Watchet ar ochr Lloegr o'r Môr Hafren, bydd y clogwyni yma'n edrych yn gyfarwydd, â charreg laid coch ar y gwaelod a haenau eiledol o garreg galch a charreg laid tua'r brig.

Ar y blaendraeth ym Mhenarth, ceir ffosiliau o Grŵp Penarth a'r Blue Lias, a ddyddodwyd yn ystod y Triasig Uchaf a'r Jwrasig Isaf. Cregyn deuglawr ac amonitau yw'r ffosiliau mwyaf cyffredin yma, ond ceir hefyd ffosiliau eraill megis gastropodau, crinoidau, môr-ddraenogod, ac esgyrn a dannedd pysgod ac ymlusgiaid morol. Mae'n bosibl dod o hyd i goprolitau (tom pysgod neu ymlusgiaid wedi'i ffosileiddio) sy'n cynnwys esgyrn a chennau bach.

Os cerddwch chi ar hyd y traeth tua'r gogledd, cyrhaeddwch Forglawdd Bae Caerdydd. Gallwch ddod o hyd i ffosiliau ar y traeth tua Larnog i'r de.

Er bod y creigiau ffosilifferaidd yn uchel yn y clogwyni, mae'r clogwyni yma'n cael eu herydu'n gyflym, ac mae cwympiadau yn digwydd yn aml, felly mae digonedd o ffosiliau ar y blaendraeth.


Mae'r clogwyni yn ansad, felly cadwch eich pellter.

**Y DDAEAREG**

Nid yw'r garreg laid coch yn y clogwyni yn ffosilifferaidd. Mae'r rhain yn perthyn i Grŵp Carreg Laid Mercia o'r Triasig Canol, a ddyddodwyd mewn llynnoedd bas enfawr yng nghanol anialwch. Ceir enghreifftiau gwych o gypswm gwyn a phinc (alabastr) o'r creigiau hyn ar y traeth.

Dyddodwyd y garreg galch a'r garreg laid tua brig y clogwyn, o Ffurfiannau Westbury a Lilstock o Grŵp Penarth y Triasig Uchaf, mewn moroedd bas. Mae Ffurfiant Westbury yn cynnwys haen esgyrn denau, sef haen o dywodfaen â llawer o byrit, sy'n gwneud iddi edrych yn rhydlyd wrth iddi hindreulio. Mae'n cynnwys esgyrn a dannedd pysgod ac ymlusgiaid morol. Ceir hefyd llechi o Ffurfiant Lilstock ar y blaendraeth sy'n dangos crychnodau.

Ar ben y clogwyn mae haenau carreg galch a charreg laid Ffurfiant Blue Lias (Triasig Uchaf i Jwrasig Isaf). Mae digonedd o gerigos o'r Blue Lias ar y blaendraeth, ac mae llawer yn cynnwys amonitau a ffosiliau eraill.



**PA FFOSILIAU ALLWCH CHI EU DARGANFOD?**

Ar unrhyw ddigwyddiad hela ffosiliau, nid yw'n warant-edig y dewch chi o hyd i ffosiliau. Mae amlder y ffosil-iau'n dibynnu ar gyflymder erydiad y clogwyni gan y môr a'r tywydd ac, wrth gwrs, mae'n bosibl y byddai pobl eraill wedi cipio'r ffosiliau cyn i chi gyrraedd.

Mae amrywiaeth o amonitau a chregyn deuglawr i'w darganfod yma. Archwiliwch flociau sydd wedi cwympo am y rhain, a ffosiliau mwy anghyffredin.



Y gragen ddeuglawr Triasig Uchaf *Liostrea bristovi*.



Cregyn deuglawr *Chlamys valoniensis* (Triasig Uchaf).



Amonit *Caloceras* (Jwrasig Isaf).



Os ydych chi'n lwcus iawn, efallai dewch chi o hyd i esgyrn pysgymlusgiaid.




Weithiau mae'n bosibl dod o hyd i sêr brau.



Crychnodau o Ffurfiant Lilstock.

Gobeithio y mwynhewch eich diwrnod gyda ni ym Mhenarth. Ceir digwydd-iadau eraill ar ein gwefan a all fod o ddiddordeb i chi: **ukafh.com**




Gallwch brynu ein llyfr, sy'n cynnwys dros 50 o safleoedd ar draws Cym-ru a Lloegr, yma: **https://earthlines.com/product/a-guide-to-fossil-collecting-in-england-and-wales/**